

Chi a'ch anesthetig

Mae'r daflen hon yn cyflwyno gwybodaeth i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich anesthetig. Mae wedi cael ei hysgrifennu gan anesthetyddion yn gweithio gyda chleifion a chynrychiolwyr cleifion. Mae hefyd yn dangos i chi ble i ddod o hyd i wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol.

Beth yw anesthesia?

Mae **anesthesia** yn eich rhwystro rhag teimlo poen a theimladau annymunol. Mae sawl ffordd o roi anesthesia, ac nid oes angen iddo eich gwneud yn anymwybodol bob tro.

Mae yna wahanol fathau o anesthesia, yn dibynnu ar y ffordd maen nhw'n cael eu rhoi:

Mae **anesthesia lleol** yn cynnwys pigladau sy'n fferru rhan fach o'ch corff. Rydych chi'n aros yn ymwybodol ond yn rhydd o boen.

Mae **anesthesia rhanbarthol**, ee yn yr asgwrn cefn neu epidwral, yn cynnwys pigladau sy'n fferru rhan fwy neu ddyfnach o'r corff. Rydych chi'n aros yn ymwybodol neu'n cael tawelydd, ond yn rhydd o boen. Gyda rhai llawdriniaethau efallai y byddwch yn teimlo pwysedd.

Mae **anesthesia cyffredinol** yn achosi cyflwr o anymwybyddiaeth reoledig. Mae'n hanfodol ar gyfer rhai llawdriniaethau a thriniaethau. Rydych chi'n anymwybodol ac yn teimlo dim.

Mae **tawelu** yn achosi cyflwr sy'n debyg i gwsg, ac mae'n aml yn cael ei ddefnyddio gydag anesthetig lleol neu ranbarthol. Gall tawelydd fod yn ysgafn neu'n ddwfn ac efallai y byddwch chi'n cofio popeth, rhywbeth neu ddim ar ôl cael tawelydd.



Am ragor o wybodaeth am dawelu, gweler ein taflen *Egluro tawelyddu* sydd ar gael ar ein gwefan: rcoa.ac.uk/patientinfo/sedation

Anesthetyddion

Mae anesthetyddion yn feddygon sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol. Maent yn:

- trafod gyda chi y math neu'r mathau o anesthetig sy'n addas ar gyfer eich llawdriniaeth. Os oes dewisiadau ar gael, byddant yn eich helpu i ddewis
- trafod risgiau anesthesia gyda chi
- cytuno ar gynllun gyda chi ar gyfer eich anesthetig a rheoli poen wedyn
- rhoi eich anesthetig i chi, ac maent yn gyfrifol am eich lles a'ch diogelwch trwy gydol eich llawdriniaeth ac yn yr ystafell wella

Chi a'ch anesthetig

Efallai y byddwch hefyd yn cwrdd Cymdeithion Anesthesia sy'n weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u hyfforddi i safon uchel. Gallwch ddarllen mwy am eu rôl a'r tîm anesthesia ar ein gwefan: rcoa.ac.uk/patientinfo/anaesthesia-team



Y clinig asesu cyn llawdriniaeth (clinig cyn-asesu)

Os ydych chi'n cael llawdriniaeth wedi'i chynllunio efallai y cewch eich gwahodd i glinig asesu cyn llawdriniaeth ychydig wythnosau neu ddyddiau cyn eich llawdriniaeth. Weithiau, ar gyfer llawdriniaethau bach, bydd nyrs yn eich ffonio yn lle i ofyn rhai cwestiynau i chi.

Dewch â'r canlynol gyda chi:

- presgripsiwn cyfredol neu eich meddyginiaethau yn eu pacedi gwreiddiol
- unrhyw wybodaeth sydd gennych am brofion a thriniaethau mewn ysbytai eraill
- gwybodaeth am unrhyw broblemau y gallech chi neu'ch teulu fod wedi'u cael gydag anesthetig
- unrhyw fesuriadau pwysedd gwaed diweddar.

Pan fydd eich meddyg teulu yn eich cyfeirio am lawdriniaeth, rydym yn argymhell bod eich pwysedd gwaed yn cael ei fesur yn eich meddygfa. Fel hyn, os yw eich pwysedd gwaed yn uchel, gellir cychwyn triniaeth ymhell cyn y llawdriniaeth. P'un a oes angen i chi ddechrau triniaeth ai peidio, gall dod â chofnod o unrhyw fesuriadau pwysedd gwaed diweddar fod yn ddefnyddiol.

Bydd nyrsys yn y clinig yn:

- eich holi'n fanwl am eich gweithgarwch ac unrhyw broblemau iechyd corfforol a meddyliol
- gofyn i chi am alergeddau ac adweithiau (dewch â manylion)
- gwneud rhestr fanwl o'r meddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd, gan gynnwys cyffuriau lladd poen hirdymor
- gofyn i chi a ydych chi'n ysmegu, yn yfed alcohol neu'n cymryd cyffuriau hamdden
- eich pwyso a'ch mesur
- mesur eich pwysedd gwaed a gwirio cyflymder eich calon a'ch lefelau ocsigen
- gwrando ar eich calon a'ch brest os bydd angen
- trefnu unrhyw brofion gwaed yn ôl yr angen
- cynnal prawf ECG (mesur gweithgarwch trydanol y galon)
- cymryd swab croen a/neu drwyn i chwilio am unrhyw haint
- eich cynghori ar ba feddyginiaeth y dylech ei chymryd ar ddiwrnod eich llawdriniaeth a pha feddyginiaeth lleddfu poen y dylech ei chael gartref yn barod ar gyfer eich gwellhad

Chi a'ch anesthetig

- rhoi gwybodaeth i chi am drallwyso gwaed os ydyn nhw'n meddwl y gallai fod angen hynny arnoch chi



Mae trallwyso gwaed yn cael ei osgoi bob amser oni bai fod hynny'n angenrheidiol. Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth ar wefan y GIG

nhsbt.nhs.uk/what-we-do/blood-services/blood-transfusion



Darllenwch ein taflen *Egluro anaesthesia* os hoffech gael gwybodaeth fanylach am anaesthesia:

rcoa.ac.uk/patientinfo/anaesthesia-explained

Cyn dod i'r ysbyty

Mae yna lawer y gallwch chi ei wneud i baratoi ar gyfer llawdriniaeth a'r cyfnod gwella.

- Os ydych chi'n ysmegu, bydd rhoi'r gorau iddi rai wythnosau cyn y llawdriniaeth yn lleihau'r risg o broblemau anadlu yn ystod eich anesthetig ac ar ôl eich llawdriniaeth.
- Os ydych chi'n ordew, bydd lleihau eich pwysau yn lleihau llawer o'r risgiau ychwanegol rydych chi'n eu hwynebu yn ystod eich anesthetig ac ar ôl eich llawdriniaeth. Efallai y bydd hefyd yn gwneud y llawdriniaeth yn haws.
- Os oes gennych ddannedd neu gornau yn rhydd, gallai ymweld â'ch deintydd cyn y llawdriniaeth leihau'r risg o ddifrod i'ch dannedd yn ystod yr anesthetig.
- Os oes gennych broblem feddygol hirdymor (ee diabetes, asthma neu froncitis, problemau thyroid, poen cronig neu broblemau'r galon) a dydych chi ddim yn teimlo ei bod wedi'i rheoli'n dda, cysylltwch â meddygfa eich Meddyg Teulu i holi a oes unrhyw beth y gallwch ei wneud i'w gwella.
- Mae hefyd yn bwysig eich bod yn ystyried unrhyw bryderon iechyd meddwl fel gorbryder ac iselder, gan fod y rhain hefyd yn gallu gwneud gwahaniaeth i'ch llawdriniaeth a'ch gwellhad.
- Gall cynyddu eich gweithgarwch yn yr wythnosau cyn llawdriniaeth wella gweithrediad eich calon a'ch lefelau ffitrwydd. Mae astudiaethau wedi dangos y gall hyn wneud gwahaniaeth mawr i'ch gwellhad ar ôl llawdriniaeth.
- Y peth gorau yw cynllunio'n gynnar ar gyfer pan fyddwch yn gwella gartref wedyn, a rhoi gwybod i'ch ffrindiau a'ch teulu sut orau i'ch helpu. Meddyliwch am beth fyddwch chi'n ei fwyta ac am unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn y cartref i wneud eich gwellhad yn haws.
- Os byddwch wedi cael anesthetig cyffredinol neu dawelydd ac yn mynd adref ar yr un diwrnod, bydd angen i chi drefnu bod oedolyn cyfrifol ar gael i fynd â chi adref mewn car neu dacsï ac aros gyda chi am hyd at 24 awr. Mae gwybodaeth i'r rhai sy'n gofalu am rywun sydd newydd gael anesthetig cyffredinol neu dawelydd ar gael ar ein gwefan:
rcoa.ac.uk/patientinfo/sedation
- Mae'n bwysig meddwl am y ffordd orau i chi ymlacio ar ddiwrnod eich llawdriniaeth oherwydd efallai y bydd yn rhaid i chi aros cyn eich llawdriniaeth. Gall cylchgronau, posau neu wrando ar gerddoriaeth trwy glustffonau i gyd fod o gymorth.



Chi a'ch anesthetig



Bydd ein hadnoddau **Fitter Better Sooner** yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddod yn fwy heini a bod yn fwy parod ar gyfer eich llawdriniaeth. Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan: rcoa.ac.uk/fitterbettersooner

Ar ddiwrnod eich llawdriniaeth

Dylai'r ysbyty roi cyfarwyddiadau clir i chi ynghylch bwyta ac yfed. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn bwysig. Os bydd bwyd neu hylif yn eich stumog yn ystod eich anesthetig, gallai godi i'ch gwddf a'ch ysgyfaint a pheryglu eich bywyd.

Os oes gennych **ddiabetes**, gofynnwch i'ch ysbyty **pryd i roi'r gorau i fwyta ac yfed, a sut y dylech gymryd eich meddyginiaeth** ar ddiwrnod eich llawdriniaeth.

Os ydych chi'n ysmegu, ni ddylech ysmegu ar ddiwrnod eich llawdriniaeth, gan fod hyn yn lleihau faint o ocsigen sydd yn eich gwaed. Ni ddylech ysmegu e-sigaréts chwaith.

Os ydych ar feddyginiaeth, dylech ddilyn cyfarwyddiadau penodol y tîm asesu cyn llawdriniaeth ar sut i'w chymryd ar ddiwrnod y llawdriniaeth. Cewch gael llymaid o ddŵr i gymryd unrhyw dabledi yn ôl yr angen.

Os ydych chi'n cymryd unrhyw gyffuriau 'teneuo gwaed' fel warfarin, clopidogrel neu rivaroxaban, bydd angen i chi drafod gyda'ch meddyg ymgynghorol neu'r tîm asesu cyn llawdriniaeth p'un a ddylech chi roi'r gorau i'w cymryd ai peidio, ac os felly pryd. Byddant yn edrych ar unrhyw risg o waedu a risgiau atal y driniaeth ac yn gwneud cynllun gyda chi. Bydd eich nyrs yn rhoi cyfarwyddiadau clir i chi cyn eich llawdriniaeth.

Os fyddwch chi'n teimlo'n sâl ar ddiwrnod eich derbyn i'r ysbyty, ffoniwch y ward i gael cyngor. Cofiwch dynnu farnais neu gel oddi ar eich ewinedd cyn dod i'r ysbyty. Mae hyn yn sicrhau bod y clip ar eich bys i fesur lefelau ocsigen yn gweithio'n dda yn ystod eich anesthetig.

Cyfarfod eich anesthetydd

Bydd eich anesthetydd yn cwrdd â chi cyn y llawdriniaeth. Gall hyn fod yn y clinig asesu cyn llawdriniaeth neu ar ddiwrnod eich llawdriniaeth. Bydd yn trafod y math o anesthetig y gallech chi ei gael, gan gynnwys manteision, risgiau a'ch dewisiadau chi.

Bydd yn penderfynu gyda chi pa anesthetig fyddai orau i chi. Nid yw pob math o anesthesia yn briodol ar gyfer pob math o llawdriniaeth.

Os bydd dewis o anesthetig, bydd y penderfyniad ynghylch pa un i'w ddefnyddio yn dibynnu ar:

- y llawdriniaeth rydych chi'n ei chael ac unrhyw broblemau meddygol
- risgiau penodol i chi
- eich dewisiadau chi a'r rhesymau drostynt
- argymhelliad a sgiliau penodol yr anesthetydd
- yr offer, y staff a'r adnoddau yn yr ysbyty

Chi a'ch anesthetig

Cwestiynau yr hoffech eu gofyn i'ch anesthetydd neu'ch nyrs

Gwnewch nodyn o unrhyw gwestiynau sydd gennych am eich anesthetig, neu ystyriwch yr enghreifftiau gyferbyn. Os hoffech chi siarad ag anesthetydd cyn diwrnod eich llawdriniaeth, cysylltwch â'r tîm asesu cyn llawdriniaeth fydd efallai'n gallu trefnu i chi siarad ag anesthetydd ar y ffôn neu mewn clinig.

Paratoi ar gyfer eich llawdriniaeth

Bydd eich nyrs yn rhoi gŵn ysbyty i chi ei gwisgo ac yn trafod pa ddillad isaf y cewch chi eu gwisgo. Fel rheol, byddwch chi'n gwisgo hosanau elastig i leihau'r risg o glotiau gwaed yn eich coesau. Bydd eich nyrs yn rhoi bandiau adnabod ar eich arddwrn neu'ch ffêr/pigwrn ac mewn rhai ysbytai band ychwanegol os oes gennych unrhyw alergeddau.

Weithiau rhoddir **rhagfoddion** ('pre-med') cyn rhai mathau o anesthetig. Mae rhagfoddion yn paratoi'ch corff ar gyfer llawdriniaeth - maent yn cychwyn y broses lleddfu poen, yn lleihau asid yn y stumog neu'n eich helpu i ymlacio.


Bydd nyrs yn cynnal prawf beichiogrwydd ar sampl wrin os ydych chi o oedran magu plant. Mae hyn yn arfer safonol.

Dylech dynnu gemwaith a/neu emwaith tyllu. Os nad ydych yn gallu ei dynnu, bydd y nyrsys yn ei orchuddio â thâp i atal niwed iddo neu i'ch croen. Fel arfer, gellir gwisgo modrwy briodas.

Pan fyddwch yn cael eich galw am eich llawdriniaeth

- Bydd aelod o staff yn mynd gyda chi i'r theatr.
- Fel rheol cewch wisgo'ch sbectol, cymhorthion clyw a dannedd gosod nes eich bod yn yr ystafell anesthetig. Efallai y cewch ddal i'w gwisgo os nad ydych yn cael anesthetig cyffredinol.
- Os ydych chi'n cael anesthetig lleol neu ranbarthol, efallai y cewch chi fynd â'ch dyfais electronig eich hun, gyda chlustffonau, i wrando ar gerddoriaeth (holwch eich nyrs ymlaen llaw).
- Gallwch gerdded i'r theatr, yng nghwmni aelod o staff, neu gallwch fynd mewn cadair olwyn neu ar wely neu droli. Os fyddwch chi'n cerdded, cewch wisgo'ch gŵn llofft a'ch sliperi eich hun.

Gwneir **gwiriadau arferol** wrth i chi gyrraedd yr adran llawdriniaeth, cyn i'r anesthetig ddechrau. Gofynnir i chi gadarnhau eich enw, eich dyddiad geni, y llawdriniaeth rydych chi'n ei chael, p'un ai ar yr ochr chwith neu'r ochr dde (os yw'n berthnasol), pryd wnaethoch chi fwyta neu yfed ddiwethaf ac a oes gennych chi unrhyw alergeddau. Mae'r gwiriadau hyn yn arferol ymhob ysbyty.



✓ Oes raid i mi gael anesthetig cyffredinol?

✓ Oes yna ddewisiadau?

✓ Pa fath o anesthetig ydych chi'n ei argymhell?

✓ Beth yw risgiau'r math hwn o anesthetig?

✓ Ydw i'n wynebu unrhyw risgiau arbennig?

✓ Sut driniaeth lleddfu poen fydd ei hangen arna' i?

✓ Sut fydda' i'n teimlo wedyn?

Chi a'ch anesthetig

Cychwyn yr anesthetig

Gall eich anesthetig gychwyn yn yr ystafell anesthetig neu yn y theatr lawdriniaeth. Bydd eich anesthetydd yn gweithio gyda chynorthwyydd hyfforddedig. Bydd yr anesthetydd neu'r cynorthwyydd yn cysylltu gwifrau wrth beiriannau i fesur curiad eich calon, eich pwysedd gwaed a'ch lefelau ocsigen, ac wrth unrhyw offer arall yn ôl yr angen.

Defnyddir **caniwla**, tiwb bychan plastig wedi'i osod yn eich gwythien â nodwydd, i ddechrau'r rhan fwyaf o anesthetigion mewn oedolion, gan gynnwys anesthetig lleol. Fel hyn, gellir defnyddio'r caniwla i roi pob cyffur yn eich gwythiennau. Os oes gennych unrhyw bryderon am hyn, siaradwch â'ch anesthetydd.

Anesthetig lleol a rhanbarthol

Os ydych chi'n cael anesthetig lleol neu ranbarthol:

- bydd eich anesthetydd yn gofyn ichi gadw'n llonydd wrth gael y pigladau. Efallai y byddwch yn sylwi ar deimlad o oglais cynnes wrth i'r anesthetig ddechrau gweithio
- dim ond pan fyddwch chi a'ch anesthetydd yn siŵr bod y man sy'n cael ei drin wedi'i fferru bydd eich llawdriniaeth yn mynd yn ei blaen
- byddwch yn parhau i fod yn effro ac yn ymwybodol o'r hyn sydd o'ch cwmpas, oni bai eich bod yn cael tawelydd. Bydd sgrin yn eich rhwystro rhag gweld y llawdriniaeth oni bai eich bod chi eisiau
- ar gyfer anesthetig rhanbarthol, bydd aelod o'r tîm anesthetig yn agos atoch chi bob amser a gallwch siarad â nhw pryd bynnag y dymunwch.

Anesthetig cyffredinol

Mae dwy ffordd o gychwyn anesthetig cyffredinol:

- gellir chwistrellu cyffuriau anesthetig i wythien trwy'r caniwla. Yn gyffredinol defnyddir hyn ar gyfer oedolion ac mae dan fwy o reolaeth
- gallwch anadlu nwyon anesthetig ac ocsigen trwy fwgwd y gallwch ei ddal os yw'n well gennych. Unwaith y byddwch yn anymwybodol bydd eich anesthetydd yn gosod caniwla.

Yr ystafell wella

Ar ôl y llawdriniaeth, byddwch fel arfer yn cael eich cludo i'r ystafell wella. Bydd staff adfer yn sicrhau eich bod mor gyffyrddus â phosibl ac yn rhoi unrhyw feddyginiaeth ychwanegol ichi yn ôl yr angen. Pan fyddant yn fodlon eich bod wedi gwella'n ddiogel o'ch anesthetig a bod gwely ar gael, cewch eich cludo yn ôl i'r ward.

Lleddfu poen ar ôl llawdriniaeth

Bydd y math a faint o gyffuriau lleddfu poen a gynigir i chi yn dibynnu ar y llawdriniaeth rydych chi'n ei chael a'ch lefelau poen ar ôl y llawdriniaeth. Mae angen mwy o gyffuriau lleddfu poen ar rai pobl nag eraill.

Chi a'ch anesthetig

Yn gyffredinol, dylid disgwyl rhywfaint o boen neu anesmwythder yn ystod eich gwellhad. Gall cyffuriau cryfion leddfu poen yn effeithiol iawn, ond gallant gael sgîl-effeithiau, fel cyfog, rhwymedd a dibyniaeth yn y tymor hir.

Yn achlysurol, gall poen fod yn arwydd bod rhywbeth o'i le, felly dylech roi gwybod i'ch nyrsys bob tro a gofyn iddynt am gyngor a chymorth.

Dyma rai ffyrdd i leddfu poen:

- **pils, tabledi neu hylifau i'w llyncu** - defnyddir y rhain ar gyfer pob math o boen. Maent fel arfer yn cymryd o leiaf hanner awr i weithio. Mae'n rhaid i chi allu bwyta ac yfed a pheidio â theimlo'n sâl i'r cyffuriau hyn weithio
- **pigiadau** - gall y rhain fod yn fewnwythiennol (trwy'ch caniwla i mewn i wythïen i gael effaith gyflymach) neu'n fewngyhyrol (i mewn i gyhyr eich coes neu'ch pen-ôl gan ddefnyddio nodwydd, gan gymryd tua 20 munud i weithio)
- **tawddgyffuriau** - mae'r peledi cwyradd hyn yn cael eu rhoi yn eich rectwm (pen ôl). Mae'r beled yn toddi ac mae'r cyffur yn mynd i mewn i'r corff. Maent yn ddefnyddiol os nad ydych chi'n gallu llyncu neu os ydych yn debygol o chwydu
- **analgesia a reolir gan gleifion (PCA)** - peiriant â botwm sydd, wrth gael ei wasgu gennych chi, yn dosbarthu dos bach o boenladdwyr cryf yn uniongyrchol i'ch caniwla neu'ch diferwr. Mae wedi'i raglennu i sicrhau nad ydych chi'n gallu cymryd gorddos. Mae PCA yn rhoi rheolaeth uniongyrchol ichi dros leddfu eich poen
- **anesthetig lleol ac atalyddion rhanbarthol** – gall y mathau hyn o anesthesia fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer lledfu poen ar ôl llawdriniaeth. Cewch ragor o fanylion yn ein taflen *Lleddfu poen yn epidwral ar ôl llawdriniaeth* sydd ar gael ar ein gwefan:

rcoa.ac.uk/patientinfo/leaflets-video-resources

Lleddfu poen ar ôl gadael yr ysbyty

Er efallai y cewch chi gyflenwad o gyffuriau lladd poen pan fyddwch chi'n gadael yr ysbyty, mae'n syniad da prynu rhai cyffuriau lladd poen dros y cownter i'w cael yn barod gartref. Os bydd eu hangen arnoch bythefnos ar ôl cael eich rhyddhau o'r ysbyty, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu i drafod hyn ymhellach.

Mae'n bosib y cewch chi gyffuriau lladd poen tebyg i forffin pan fyddwch chi'n mynd adref yn dilyn eich llawdriniaeth. Mae'n bwysig eich bod yn lleihau'r dos ac yna'n peidio cymryd y meddyginiaethau hyn cyn gynted â phosibl oherwydd gall eu defnyddio'n barhaus achosi niwed sylweddol i chi.

Risg ac anesthesia

Mae'r ffeithlun isod yn dangos y digwyddiadau a'r risgiau cyffredin y mae cleifion sy'n oedolion iach o bwysau normal yn eu hwynebu wrth gael anesthetig cyffredinol ar gyfer llawdriniaeth arferol (gall llawdriniaethau arbenigol beri risgiau gwahanol).

Mae anesthetigion modern yn ddiogel iawn. Mae rhai sgîl-ffeithiau cyffredin i'r cyffuriau anesthetig neu'r offer a ddefnyddir; nid ydynt fel arfer yn ddifrifol nac yn parhau'n hir. Bydd y risgiau'n amrywio rhwng unigolion ac yn dibynnu ar y driniaeth a'r math o anesthetig a ddefnyddir.

Bydd eich anesthetydd yn trafod gyda chi y risgiau y mae'n ystyried yn arwyddocaol i chi. Mae yna risgiau eraill llai cyffredin na fydd eich anesthetydd fel arfer ddim yn eu trafod fel mater o drefn oni bai ei fod yn credu bod mwy o risg i chi. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y daflen hon.

Chi a'ch anesthetig



CYFFREDIN IAWN – mwy nag 1 o bob 10
Sy'n cyfateb i un person yn eich teulu



Cyfog



Crynu



Syched*



Dolur gwddf / Gwddf tost



Cleisio



Colli cof dros dro (yn bennaf mewn pobl dros 60 oed)



CYFFREDIN – rhwng 1 o bob 10 ac 1 o bob 100
Sy'n cyfateb i un person mewn stryd



Poen o amgylch safle'r pigiad*



Mân anaf i'r wefus neu'r tafod



ANGHYFFREDIN – rhwng 1 o bob 100 ac 1 o bob 1,000
Sy'n cyfateb i un person mewn pentref



Mân anaf i'r nerf



PRIN – rhwng 1 o bob 1,000 ac 1 o bob 10,000
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fach



1 o bob 1,000
Niwed ymylol parhaol i'r nerf



1 o bob 2,800
Ysgythriad cornbilennol (crafiad ar y llygad)



1 o bob 4,500
Niwed i ddannedd sy'n peri bod angen triniaeth



1 o bob 10,000
Anaffylacsis (adwaith alergaidd difrifol i gyffur)



PRIN IAWN – rhwng 1 o bob 10,000 ac 1 o bob 100,000 new fwy
Sy'n cyfateb i un person mewn tref fawr



Mae'r risgiau rydyn ni i gyd yn eu cymryd mewn bywyd normal, **fel teithio ar y ffordd**, mewn gwirionedd yn llawer uwch na'r risgiau isod.



1 o bob 20,000
Dod yn ymwybodol yn ystod anesthetig



1 o bob 100,000
Colli golwg



1 o bob 100,000
Marwolaeth o ganlyniad uniongyrchol i anesthesia

*Astudiaeth gyntaf Prosiect Cenedlaethol Anesthesia Sprint (SNAP-1). *Br J Anaesth* 2016

(<https://academic.oup.com/bja/article/117/6/758/2671124>).



Os hoffech chi ddarllen mwy am y digwyddiadau a'r risgiau hyn gweler y taflenni risg unigol sydd ar gael ar ein gwefan: coa.ac.uk/patientinfo/risks/risk-leaflets

Gallwch hefyd lawrlwytho'r ffeithlun uchod fel cerdyn ar wahân trwy'r ddolen uchod.

Chi a'ch anesthetig

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuon sydd gennych chi gyda'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch [yma](#).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r daflen hon.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch: patientinformation@rcoa.ac.uk

Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion

Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG
020 7092 1500

rcoa.ac.uk



Rhifyn Pump, Chwefror 2020

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

© 2020 Royal College of Anaesthetists

Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.